Mae'r darn yma'n sôn am Louis Pasteur, ond mae ychydig o broblem ar ddechrau'r darn gan fod trefn y paragraffau wedi cymysgu ac mae is-bennawd ar goll.

## Louis Pasteur

Pwy oedd Louis Pasteur?

A Yn 15 oed, aeth i'r ysgol uwchradd ym Mharis, ond oherwydd hiraeth ofnadwy dychwelodd adre. Yna, aeth i ysgol uwchradd yn Besancon, oedd tua 40 cilometr o'i gartref. Bu'n hapus yno ac arhosodd yn y dref hon i wneud cwrs yn y Coleg Brenhinol yno, gan ennill gradd yn 1842.

B Cafodd Louis Pasteur ei eni yn Dole, Ffrainc yn 1822. Roedd e'n fab i farcer - sef dyn oedd yn gweithio gyda lledr. Dyna roedd rhai o athrawon Louis yn meddwl y byddai e hefyd yn ei wneud ryw ddiwrnod, gan fod ei ganlyniadau yn yr ysgol braidd yn siomedig - ar wahân i'w ganlyniadau rhagorol mewn celf.

C Yn 1854, cafodd ei benodi'n Athro cemeg ym mhrifysgol Lille. Fel rhan o'i waith, roedd disgwyl iddo wneud ymchwil a fyddai'n helpu diwydiannau yn yr ardal. Gan fod nifer o gwmnïau'n gwneud diodydd alcohol yn yr ardal, aeth ati i geisio gweld pam bod gwin a chwrw'n mynd yn sur. Llwyddodd i ddangos bod bacteria'n suro'r gwin a'r cwrw a dangosodd sut roedd gwella'r sefyllfa, sef drwy ferwi'r hylif ac yna'i oeri.

Ch Yn 1843, aeth i'r École Normale ym Mharis. Ar ôl pedair blynedd o astudio cafodd ei wneud yn ddoctor yno, yn 1847.

D ..........................................

Llwyddodd Pasteur i ddangos, wedyn, fod modd defnyddio'r un broses, sef berwi hylif a'i oeri, er mwyn cadw llaeth rhag suro. Roedd hyn yn llwyddiant mawr ac erbyn heddiw, mae'r llaeth rydym yn ei brynu mewn siopau wedi bod drwy'r broses hon - mae wedi ei **basteureiddio**.

Aeth Pasteur ati i weld o ble roedd bacteria'n dod a daeth i'r canlyniad eu bod yn dod o'r amgylchedd. Doedd gwyddonwyr y cyfnod ddim yn fodlon derbyn y syniad yma i ddechrau, ond o dipyn i beth, daethon nhw i weld bod syniadau Pasteur yn gwneud synnwyr. Yn 1864, cafodd ei syniadau eu derbyn yn swyddogol gan Academi Gwyddoniaeth Ffrainc.

Gwnaeth Pasteur fwy o ymchwil i facteria a germau a dangosodd fod germau'n gallu ymosod ar y corff dynol o'r tu allan. Unwaith eto, roedd gwyddonwyr yn amau hyn, ond aeth Pasteur ymlaen i ddangos sut mae llawer o afiechydon yn cael eu hachosi gan germau o'r tu allan. Dangosodd sut y gallai brechiadau rwystro'r clefydau hefyd.

Yn 1887, cafodd sefydliad arbennig ei agor ym Mharis i frwydro yn erbyn clefydau ac i'w trin. Yr enw arno oedd Institut Pasteur, enw a oedd yn cydnabod ei gyfraniad pwysig i'r maes. Pasteur oedd y cyfarwyddwr tan ei farwolaeth yn 1895.